Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, Ebrill 11eg, 2007 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Cyng Roy Davies, Cyng Edward Thomas, Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Fran Murphy, Cyng Dawn Wallace,
Des Davies (Swyddog Technegol) Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Cyng Ros Bellamy

Cofnod 1 /Ebrill / 07 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/15641 Arwydd sy'n estyn allan a phaneli ar y wal (yn ogystal ag arwydd sy'n sefyll) yn 129, Heol Rhosmaen
Sylw : Dim gwrthwynebiadau i'r arwydd ar y wal ar yr amod ei fod yn cydymffurfio ag arddull sy'n addas i adeilad rhestredig mewn ardal gadwraeth.
Pryder ynghylch yr arwydd sy'n sefyll oherwydd fe allai fod yn rhwystr ac yn berygl i Gerddwyr.

E/15640 Arwydd sy'n estyn allan yn 109, Heol Rhosmaen.
Sylw. Dim gwrthwynebiad gan ei fod ar ochr yr eiddo, ond fe ddylai fod mewn arddull sy'n addas i ardal gadwraeth.

E/15642 Anheddle arfaethedig yn seiliedig ar angen lleol (adran 106) ailgyflwyno cais E/13578
Tir yn 2, Bythynnod coch, Heol Caerfyrddin.
Sylw : Noder. Cyfeirir at benderfyniad cynharach a wnaed gan y Cyngor.

E/15903 Mân waith ynghyd â newid defnydd i'r adain Ddwyreiniol, cwrt mewnol swyddfa'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, adfer nodweddion sydd wedi'u cuddio. Tŷ'r Drenewydd.
Dim gwrthwynebiadau.

Cof 2 / Ebrill / 07 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

Caniatawyd y ceisiadau cynllunio canlynol gan Bwyllgor Cynllunio CSC
E/15210 Estyniad ac atgyweiriadau yn Fferm Pencrug, oddi ar Heol Caerfyrddin.
E/13850 Newidiadau arfaethedig i simnai a goleuadau yn y to yn 9, Bryn Sior
E/15174 Estyniad ar gyfer Cegin yng nghefn yr anheddle, addasu'r llofft yn 2 Ystafell Wely yn 7, Heol Tomos.

Cof 3 / Ebrill / 07 Doedd yna ddim Ceisiadau Cynllunio a Wrthodwyd.

Cof 4 / Ebrill / 07 Cludiant a Phriffyrdd

1. Newidiadau arfaethedig i'r cyfyngiadau aros yn Stryd y Bont.
   Argymhellwyd bod y Clerc yn ysgrifennu ar yr adain Briffyrdd yn lleisio gwrthwynebiad y Cyngor ar y sail

- Fod hyn braidd yn gynamserol o ystyried y penderfyniad sydd ar ddod ar y ffordd osgoi arfaethedig.
- Bydd yn achosi perygl difrifol i drigolion Stryd y Bont, yn arbennig trigolion sydd mewn oed a thrigolion anabl yn Rhif 7 a 9 wrth orfod croesi Cefnffordd.
- Mae'r sefyllfa bresennol yn gweithio fel mesur arafu traffig ffordd effeithiol.
- Mae'r cynnig yn anwybyddu'r cyd-destun ehangach, a'r unig beth y mae'n ystyried yw'r llif traffig.

2. Cyfarfod Davies Richards. Wnaeth y Cyng Roy Davies a'r Cyng Richard Wallace fynychu'r Cyfarfod. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Ebrill 30ain am 4.30pm yn Neuadd y Sir.

3. Mae Cynghorwyr wedi derbyn cwynion ynglŷn â chyflymder traffig ar hyd Heol y Brenin, yn arbennig ar y gornel. Mae cwynion hefyd wedi'u derbyn mewn perthynas â'r byrddau a'r cadeiriau y tu allan i Fwyty Caroletta. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns y dylid gwneud argymhelliad i'r cyngor llawn yn gofyn i Mr John McEvoy, CSC y Rheolwr Traffig i fynychu cyfarfod safle er mwyn ystyried gwneud rhan o'r ardal ar gyfer cerddwyr yn unig o amgylch Stryd y Farchnad.

Cof 5 / Ebrill / 07 Adroddiad Llwybrau Troed.

Dywedodd y Swyddog Technegol fod y gorchmynion ar gyfer cytundeb cynnal a chadw llwybrau troed wedi'u dosbarthu ac y bydd y toriad cyntaf yn cael ei wneud yn ystod wythnos olaf Mai.

Cof 6/ Ebrill/ 07 Atgyweirio Swyddfa.

Dywedodd y Swyddog Technegol y byddai Mr Dilwyn Thomas yn dechrau gweithio ar atgyweirio'r Gegin yn dilyn yr achlysur i Lansio Neuadd y Sir ar yr 20fed ac 21ain Ebrill.

Cof 7 / Ebrill / 07 Gohebiaeth

1. Clwb Bowls Llandeilo yn gofyn am ganiatâd i ddefnyddio arfbais y Cyngor ar gyfer Llawlyfr ei Pen-blwydd yn 75.
   Y Clerc i gysylltu a chytuno i ddarparu templed.
2. Hysbysiad gan Dai Gwalia fod CSC yn cymryd perchnogaeth o'r man chwarae ym Maes y Farchnad.
   Y Clerc i gysylltu ag Adran Parciau a Hamdden CSC er mwyn cael caniatâd i wneud gwaith glanhau ganol Mai.

Cof 8 / Ebrill / 07 Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Dywedodd y Cyng Roy Davies am yr angen i gael cyfarfod er mwyn penderfynu'n derfynol ar y trefniadau ar gyfer Lansio Neuadd y Sir ar ddydd Gwener 20fed a dydd Sadwrn 21ain Ebrill. Cytunwyd y dylid cwrdd yn Neuadd y Sir ar ddydd Gwener, Ebrill 13eg am 5pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10pm